# Adroddiad Arolygu

**Ann Morris**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 08 Mai 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

***Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.***


Mae'r plant yn fodlon eu byd; maent yn chwarae'n hyderus gyda'i gilydd ac yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r gwarchodwr plant. Maent yn mynegi eu hunain yn dda yn unol â'u hoedrannau a'u camau datblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnwys digwyddiadau tymhorol yn y gweithgareddau ar ôl ysgol er mwyn sicrhau nad yw'r plant yn colli diddordeb. Mae'n garedig, yn ofalgar, yn adnabod y plant yn dda, ac yn ystyried eu hanghenion a'r hyn sy'n well ganddynt.

Mae'r safle yn lân, yn ddiogel ac yn cynnig mannau a chyfleusterau addas i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi llunio asesiadau risg ysgrifenedig ac mae'n cymryd camau i leihau'r risg bosibl i'r plant. Mae'n darparu gwasanaeth i blant sy'n mynychu addysg amser llawn, ar ôl ysgol ac yn ystod y tymor yn unig.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r cofnodion a'r gwaith papur gofynnol ac aeth i'r afael â materion a godwyd yn ystod y broses arolygu yn brydlon. Mae wedi meithrin cydberthnasau da â'r rhieni a'r ysgol leol.

## Llesiant

Caiff y plant gyfleoedd i wneud eu dewisiadau eu hunain.  Maent yn penderfynu ar yr hyn y maent am ei wneud a beth y maent am chwarae ag ef.  Er enghraifft, roedd y plant wrth eu bodd yn chwarae â chymeriadau byd bach ar ôl iddynt fwyta eu te. Maent yn dweud wrthym yn hyderus eu bod yn hoffi cael gofal gan y gwarchodwr plant. Maent hefyd yn falch o ddweud wrthym fod aelodau eraill o'u teulu wedi cael gofal gan y gwarchodwr plant hefyd.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent yn deall y drefn feunyddiol ac yn dweud wrthym am olchi eu dwylo neu ddefnyddio'r gel gwrthfacterol pan fyddant yn dod adref o'r ysgol. Mae naws teuluol naturiol wrth iddynt eistedd o amgylch y bwrdd bwyta yn lliwio. Mae'r plant hŷn yn helpu'r plant iau yn ddi-ffws. Maent i gyd yn fodlon aros eu tro i ddweud wrthym pa mor dda y gallant ddarllen llyfr o'r ysgol. Cadarnhaodd y rhieni a gwblhaodd ein holiaduron AGC fod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r gwarchodwr plant, gan ddangos eu bod yn deall sut i fod yn garedig ac yn barchus. Maent yn eistedd yn dda gyda'i gilydd, yn sgwrsio â'i gilydd ac yn dangos cwrteisi drwy ddweud os gwelwch yn dda a diolch.

Cadarnhaodd y plant y gweithgareddau y maent yn hoffi eu gwneud. Er enghraifft, roeddent yn chwarae gemau pêl yn yr awyr agored, ac roeddent yn hoffi'r doliau cymeriadau a chwarae gemau electronig. Maent yn gwenu wrth esbonio'r fideos plant ‘Just Dance’ maent yn eu copïo o YouTube i gadw'n heini. Mae'r plant yn falch o ddangos i bawb pa mor dda y maent wedi lliwio eu gwrachod Calan Gaeaf ac yn llawn cyffro wrth sôn am y gwisgoedd maent yn mynd i'w gwisgo ar y noson. Cadarnhaodd y rhieni a gwblhaodd ein holiaduron AGC fod y plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n gorfforol yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn ddigon hen i ganolbwyntio am gyfnod priodol o amser wrth chwarae. Mae eu hiaith yn datblygu'n arbennig o dda gan eu bod yn sgwrsio digon â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant drwy gydol ein hymweliad. Mae'r plant yn defnyddio'r toiledau ar eu pen eu hunain ac yn deall pwysigrwydd dwylo glân. Maent yn defnyddio eu dychymyg drwy ddyfeisio straeon wrth iddynt chwarae.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl yn cadw'r plant yn ddiogel. Esboniodd y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe bai ganddi bryder diogelu am blentyn, ac mae'n sicrhau ei bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar amddiffyn plant. Gellir rhoi cymorth cyntaf sylfaenol os bydd angen am fod gan y gwarchodwr plant dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol. Cedwir cofnodion presenoldeb dyddiol. Wrth i'r gwarchodwr plant a'r plant gyrraedd gyda'i gilydd o'r ysgol, gwnaeth y gwarchodwr plant, pan ofynnwyd iddi, gofnodi eu hamseroedd gadael yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd wedi cael rheswm i gofnodi damweiniau, digwyddiadau na meddyginiaeth hyd yma. Fodd bynnag, dangosodd gopïau i ni o slipiau damweiniau a gafwyd gan yr ysgol, yr oedd y gwarchodwr plant wedi'u rhannu â'r rhieni. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu byrbryd amser te i'r plant sydd am ei gael ac yn gadael iddynt ddewis yr hyn yr hoffent ei gael. Fodd bynnag, nid yw eu dewisiadau bob amser yn iachus ac ar adegau mae'n bosibl y rhoddir creision. Dywedodd wrthym fod y plant yn cael dŵr i'w yfed, a sudd ffrwythau ffres pan ofynnir amdano. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân gyda'r plant. Cynhaliwyd yr ymarfer diwethaf yn ystod wythnos yr arolygiad. Mae'n bwriadu diwygio eu hasesiad risg tân er mwyn bod yn unol â'r newidiadau yn y canllawiau diwethaf.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn parchu'r hyn maent yn ei ddweud. Mae'n eu canmol am eu cyflawniadau, gan wneud i'r plant deimlo'n dda am eu hunain. Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i chwarae ac yn eu trin mewn ffordd garedig a thyner. Mae'n adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw am eu teuluoedd a'u diddordebau.

Yn gyffredinol nid oes unrhyw weithgareddau wythnosol penodol nac wedi'u cynllunio, er bod gweithgareddau thematig yn rhan o chwarae a dysgu'r plant yn ystod y flwyddyn. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant ei bod yn teimlo bod angen i'r plant ymlacio ar ôl ysgol ac roedd yn parchu eu dymuniadau mewn perthynas â'r hyn roeddent am ei wneud.

## Yr Amgylchedd

Mae'r safle yn ddiogel, a gofynnir i ymwelwyr gofnodi eu presenoldeb. Mae gan y gwarchodwr plant systemau ar waith i sicrhau diogelwch y plant, yn ogystal â'i diogelwch ei hun a diogelwch ei theulu. Er enghraifft, mae'r safle yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda sy'n lleihau'r risg o groes-heintio. Ychwanegodd y gwarchodwr plant gyfeiriadau ychwanegol at leihau'r risg i'r plant yn ei chofnod asesu risg yn ystod ein hymweliad. Roedd cyfeiriad at y 'giatiau' yn yr asesiad risg gyda'r gwarchodwr plant yn cadarnhau y byddai'r rhain ar gau petai'r plant yn mynd allan i chwarae. Gwnaeth hefyd roi cynhyrchion glanhau mewn man diogel yn ystod y broses arolygu i atal y plant rhag cael gafael arnynt. Esboniodd y gwarchodwr plant ei gweithdrefnau ar gyfer glanhau adnoddau, ac roedd y rhain yn briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi lle i'r plant symud o gwmpas mewn amgylchedd croesawgar, cynnes a chartrefol. Darperir gofal mewn sawl ystafell ar y llawr gwaelod. Mae'r toiled a'r ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod yn helpu'r plant i fod yn annibynnol. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Caiff y teganau eu cadw o fewn cyrraedd y plant ac maent yn addas ar gyfer eu hoedrannau a'u camau datblygu. Mae cyfleoedd i eistedd gyda'i gilydd ar gyfer prydau bwyd a gwneud gwaith crefft wrth y bwrdd bwyta. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y plant gadeiriau cyfforddus ac ardaloedd tawel i ymlacio ynddynt.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben boddhaol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir, ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddi ffeil am ei gwasanaeth i'r rhieni ei darllen, sy'n cynnwys polisïau a gweithdrefnau. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae'r polisïau a'r gweithdrefnau a welwyd yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Cwblhaodd y gwarchodwr plant ffurflen hunanasesu gwasanaeth ac adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal eleni. Nododd fod y rhieni yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Er enghraifft, roedd y rhieni o'r farn bod y nifer bach o blant sy'n cael gofal yn golygu bod eu plentyn yn cael chwarae teg. Ers yr arolygiad diwethaf, mae gwelliannau'r gwarchodwr plant yn ei chartref yn golygu bod gan y plant fwy o le i fwyta a gwneud gwaith crefft yn y gegin. Ymatebodd y rhieni yn gadarnhaol am y gwarchodwr plant a'i gwasanaeth yn yr holiaduron y gwnaethom eu rhoi iddynt. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i bolisïau, eu bod yn gwbl fodlon ac yn teimlo bod y gwasanaeth fel ail gartref iddynt i gyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ei chyfer hi a holl aelodau ei theulu yn gyfredol. Roedd ei hyswiriant ar gyfer y busnes gwarchod plant yn gyfredol. Nododd y gwarchodwr plant nad yw'n defnyddio ei char mwyach i gludo'r plant yn ei datganiad o ddiben yn ystod yr arolygiad. Mae'n parhau i wneud yn siŵr bod ei hyfforddiant gorfodol yn gyfredol a dywedodd wrthym ei bod yn mwynhau gofalu am y plant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n sicrhau ei bod yn cael y wybodaeth berthnasol ganddynt am anghenion eu plant, a'r hyn sy'n well ganddynt, cyn iddynt ddechrau. Mae'n rhannu gwybodaeth â'r rhieni pan fyddant yn casglu eu plant. Nododd y rhieni wrth lenwi ein holiaduron fod y gwarchodwr plant bob amser ar gael i'w helpu fel rhieni prysur. Mae'r gwarchodwr plant yn casglu'r plant o'r ysgol, felly rhoddir gwybodaeth a rennir â hi gan yr athrawon i'r rhieni. Mae hyn yn sicrhau cysondeb o ran y gofal sydd er budd y plant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Parhau i gofnodi amseroedd gadael y plant.

A2. Datblygu asesiad risg ymarfer tân yn unol â chanllawiau diweddar a chynnal a chofnodi ymarferion tân yn rheolaidd.

A3. Ystyried cynnig byrbrydau iachach amser te.

A4. Ystyried cynllunio rhai gweithgareddau wythnosol strwythuredig.

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni |
|---|

| Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/11/2021